



Cyflawni drwy  
Brofiad Gwaith  
Achieve through  
Work Experience



# ASTUDIAETH ACHOS Myfyriwr Seicoleg

## Cyflogwr y Lleoliad: Cynorthwywr Marchnata yn SAORI MÔR

### Beth yw GO Wales?

Mae rhaglen cyflawni drwy brofiad gwaith 'GO Wales', sydd wedi ei leoli ym Mhrifysgol Bangor, yn helpu myfyrwyr i ddatblygu eu sgiliau cyflogadwyedd a chynyddu eu cyfle o gael swydd addas i raddedigion ar ôl gadael y brifysgol.

### Gwybodaeth am y myfyriwr

Roedd y myfyriwr yn ei blwyddyn olaf yn astudio seicoleg ac roedd eisiau cefnogaeth i ddod o hyd i lleoliad a fyddai'n cymryd ei chyflwr iechyd hirdymor i ystyriaeth a'i chefnogi. Roedd ganddi ddiddordeb mewn marchnata a chyfryngau cymdeithasol, felly trefnwyd lleoliad iddi gyda SAORI Môr, cwmni lleol sy'n arbenigo mewn dull Japaneaidd o wehyddu. Trefnwyd lleoliad iddi weithio ar agweddau marchnata a chyfryngau cymdeithasol y cwmni.

### Soniwch beth wnaeth i chi benderfynu cymryd rhan ym mhroject GO Wales.

*Penderfynais wneud cais i'r rhaglen i'm helpu i ddod o hyd i brofiad gwaith perthnasol a fyddai ar fy nhelerau i ac yn cymryd fy nghyflwr iechyd i ystyriaeth.*

### Pa fath o waith ydych chi wedi'i wneud yn ystod eich lleoliad?

*Yn ystod fy lleoliad treuliais amser yn ysgrifennu cynnwys ar gyfer blog busnes ac yn creu a rhannu negeseuon ar gyfryngau cymdeithasol fel Instagram, Pinterest a Twitter. Hefyd fe dynnais dipyn o luniau o stiwdio a stoc y busnes ar gyfer eu blog a chyfryngau cymdeithasol. Gweithiais gyda'r perchennog i rannu syniadau ar gyfer negeseuon a chynnwys y gellid ei gynhyrchu yn y dyfodol i hyrwyddo eu gwefan. Fe wnes i hefyd ychydig o waith gweinyddol a helpais i greu rhestr o gysylltiadau busnes ar gyfer cylchlythyr marchnata.*

### Ydych chi'n teimlo bod y lleoliad wedi eich helpu i benderfynu ar y math o lwybr gyrfa yr hoffech ei ddilyn?

*Rhoddodd y lleoliad hyder i mi gyda fy ysgrifennu a'm syniadau. Yn bendant, mae wedi fy ngwneud yn fwy parod i ystyried gweithio mewn swydd sy'n cynnwys ysgrifennu a chreu. Dwi hefyd yn hoffi gweithio mewn sefyllfa greadigol, felly mae'r lleoliad wedi fy annog i ystyried gweithio mewn man tebyg yn y dyfodol.*

### Sut fyddech chi'n disgrifio'r profiad o weithio yn y swydd hon?

*Roedd gweithio yn y swydd hon yn ymwneud â sgiliau cyfathrebu da, oherwydd mae'n rhaid i chi wrando o ddifri ac ystyried anghenion a buddiannau'r busnes. Roeddwn yn cael budd mawr o gydweithio efo rhywun arall i rannu syniadau ac yna cael cyfle i weithio'n annibynnol i greu blog neu negeseuon cyfryngau cymdeithasol.*

### Ellwch chi ddisgrifio unrhyw sgiliau newydd wnaethoch chi eu dysgu nad oeddech chi'n disgwyl eu dysgu?

*Fe lwyddais i ddatblygu fy sgiliau cyfathrebu, sy'n rhywbeth nad oeddwn i wedi ei ddisgwyl. Roedd y swydd yn cynnwys llawer o drafodaeth am y busnes, ei anghenion ac anghenion a disgwyliadau'r*



**Cyflawni drwy  
Brofiad Gwaith**  
**Achieve through  
Work Experience**



*cwsmer. Cefais gyfle i ddatblygu fy sgiliau gwrando a'm hyder i drafod a rhannu fy syniadau a'm safbwyntiau fy hun.*

### **Ydych chi'n teimlo bod y cyfle gwaith hwn wedi eich helpu i ddod dros unrhyw rwystrau?**

*Mae'r cyfle hwn wedi rhoi'r hyder i mi roi cynnig ar bethau newydd hyd yn oed os ydw i'n poeni y gallai fy iechyd wneud hynny'n anodd. Cyn hynny, roeddwn yn gohirio gwneud cais am gyfleoedd profiad gwaith gan fy mod i'n poeni na fyddwn yn gallu ymdopi'n dda. Ar ôl cwblhau'r lleoliad GO Wales, rwy'n fwy hyderus ynghylch bod yn agored gyda chyflogwyr, sôn am fy nghyflwr a thrafod ffyrdd y gellir ystyried fy anghenion.*

### **Beth yw/oedd uchafbwyntiau gweithio yn y lleoliad hwn?**

*I mi, uchafbwynt y profiad oedd dod i ddysgu am fusnes crefft a meithrin perthynas dda gyda'r perchennog. Fe wnes i hefyd fwynhau'r agweddau creadigol ar fy lleoliad fel ffotograffiaeth ac ysgrifennu blog.*

### **Sut ydych chi'n teimlo ynghylch y gefnogaeth a gawsoch gan GO Wales yn ystod y broses hon? Sut mae hyn wedi eich helpu chi?**

*Roedd y gefnogaeth gan GO Wales yn wirioneddol dda. Roeddwn yn teimlo bod fy anghenion a'm diddordebau wedi cael eu hystyried o ddifri yn ystod y broses o ddod o hyd i leoliad i mi. Roeddwn i'n gwirioneddol deimlo bod fy nghyngorwr yn malio ynghylch dod o hyd i leoliad y byddwn yn ei fwynhau'n fawr a chael budd iawn ohono.*

### **Pa yngor fydddech chi'n ei roi i fyfyrwyr sy'n ystyried gwneud cais i GO Wales?**

*Byddwn yn annog unrhyw un sy'n ystyried gwneud cais i fynd amdani a bod yn barod i roi cynnig ar ryw beth newydd. Fe'ch cefnogir yn wych drwy gydol y broses gyfan ac mae eich anghenion a'ch diddordebau yn cael eu hystyried o ddifri wrth ddod o hyd i leoliad i chi.*

---

**Dyweddodd Cynghorwr GO Wales** “roedd y lleoliad hwn yn gyfle gwych i'r myfyriwr ddatblygu'r sgiliau marchnata oedd ganddi'n barod. Roedd perchennog y busnes yn gefnogol iawn ac yn deall cyflwr iechyd y myfyriwr, a gwerthfawrogydd hynny'n fawr. Croesawodd y perchennog y cyfle i rannu syniadau a dysgu mwy am lwyfannau cyfryngau cymdeithasol i helpu i hyrwyddo'r busnes”.